# Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)

| | |
|---|---|
| **Teitl / Darn o waith:** | Polisi ynghylch canlyniadau llesiant ar gyfer y fframwaith gwella newydd |
| **Rhif SF / LF cysylltiedig** (os yw'n gymwys) | |
| **Enw'r Swyddog:** | Bethan Sherwood |
| **Adran:** | Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Dyddiad:** | 18 Chwefror 2015 |
| **Llofnod:** | B Sherwood |

A fyddech cystal â chwblhau'r CRIA a'i gadw ar gyfer eich cofnodion ar iShare. Efallai y gofynnir ichi ddarparu'r ddogfen hon yn ddiweddarach fel tystiolaeth eich bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyladwy i hawliau plant e.e. ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, dibenion monitro neu er mwyn llywio adroddiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ar ôl ei gwblhau dylech hefyd anfon copi o'r CRIA i'r Tîm Gweithredu'r Mesur at ddibenion monitro gan ddefnyddio'r blwch post penodol CRIA@wales.gsi.gov.uk

Os nad yw swyddogion yn siŵr a ddylid cwblhau CRIA, dylent fod yn ofalus a cheisio cyngor gan y Tîm Gweithredu Mesur drwy anfon unrhyw gwestiynau i'n blwch post CRIA@wales.gsi.gov.uk

Efallai y dymunwch groesgyfeirio gydag Asesiadau Effaith eraill a gyflawnwyd.

**DS.** Dylai pob CRIA sy'n ymwneud â deddfwriaeth gael ei gyhoeddi. Caiff pob CRIA nad yw'n ymwneud â deddfwriaeth ei restru ar wefan Llywodraeth Cymru ac mae'n rhaid sicrhau ei fod ar gael ar gais. Fodd bynnag, anogir Gweinidogion i gyhoeddi pob CRIA a gwblhawyd.

ISBN: 978-1-4734-4358-7

# Chwe Cham at Sylw Dyladwy




## Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?

- **Disgrifiad cryno o'r darn o waith**

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: fframwaith gweithredu yn nodi'r heriau a wynebir gan wasanaethau cymdeithasol yn ystod y degawd nesaf ac yn rhestru blaenoriaethau gweithredu Llywodraeth Cymru. Mae'r papur yn cyflwyno'r Fframwaith Gwella Newydd fel prosiect a fydd yn cymryd rhai o'r camau gweithredu hyn a rhaglen polisi a deddfwriaeth a fydd yn eu rhoi ar waith.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar unrhyw un sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf i geisio hybu llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r Ddeddf yn nodi diffiniad o lesiant ac yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad am ganlyniadau llesiant sydd i'w cyflawni.

Mae'r datganiad hwn yn nodi hawliau a chyfrifoldebau pobl o dan y gyfraith; mae hyn yn cynnwys plant, oedolion a gofalwyr. Bydd y sector gofal cymdeithasol yn defnyddio'r datganiad o lesiant i gynllunio a darparu gwasanaethau gyda phobl. Bydd yn ffactor pwysig o ran llywio'r newid tuag at ddull sy'n canolbwyntio ar bobl, y canlyniadau y maent am eu cyflawni ac yn rhoi mwy o lais a rheolaeth iddynt.

Sefydlodd Prosiect y Fframwaith Gwella Newydd ffrwd waith i gyflawni'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth a fframwaith mesur perfformiad i awdurdodau lleol. Er mwyn cyflawni hyn:

- mae'r cod ymarfer ar gyfer Rhan 2 o'r Ddeddf a'r cod ymarfer ar gyfer mesur perfformiad awdurdodau lleol, y naill a'r llall wedi'u cyhoeddi o dan Adran 145, wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad. Mae'r rhain yn gymwys i awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol i hyrwyddo a mesur llesiant;
- mae datganiad llesiant drafft ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth wedi cael ei gyhoeddi cyn cychwyn y Ddeddf ym mis Ebrill 2016 (http://wales.gov.uk/docs/dhss/publications/140828wellbeingen.pdf). Mae'r datganiad hwn yn adeiladu ar y diffiniad o lesiant a nodir yn y Ddeddf ac yn disgrifio canlyniadau llesiant pwysig y dylai pobl eu disgwyl er mwyn byw bywydau bodlon; mae'n rhan o'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol;
- y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. http://gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/?lang=cy.

ISBN: 978-1-4734-4358-7

- **Beth yw'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn?**

Daw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ym mis Ebrill 2016, a chaiff y datganiad llesiant ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru bryd hynny.

Y cerrig milltir allweddol cyn mis Ebrill 2016 yw:

Ebrill 2013: Cyhoeddi datganiad llesiant drafft ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth;

Mehefin 2014: Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth – cyhoeddi dogfen waith;

Tachwedd 2014 – Chwefror 2015 - Ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), gan gynnwys y cod ymarfer ynglŷn â Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol, gan gynnwys y ddyletswydd i hyrwyddo llesiant a'r ddyletswydd i roi sylw dyladwy i egwyddor a chonfensiwn y CU);

Chwefror 2015 – Ebrill 2015: Ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y cod ymarfer ynglŷn â mesur perfformiad awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru);

Haf 2015: Adnewyddu a chyhoeddi dangosyddion canlyniadau cenedlaethol;

Haf 2015: Caiff y cod ymarfer terfynol drafft ynglŷn â Rhan 2 ei gyhoeddi.

Haf 2015: Caiff y cod ymarfer ynglŷn â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

Ebrill 2016: Cychwyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

Mai 2017: Adrodd cenedlaethol ar fesurau perfformiad newydd (yn flynyddol wedi hynny) a gwaith monitro parhaus ar ddangosyddion canlyniadau llesiant.

- **Pwy yw'r buddiolwyr arfaethedig?**
- **A yw'n debygol y bydd y darn o waith yn effeithio ar blant?**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mabwysiadu ymagwedd gynhwysol a bwriedir iddi fod yn fuddiol i'r holl bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Bydd hyn yn cynnwys plant (a ddiffiniwyd yn y Ddeddf fel pobl sydd o dan 18 oed), gofalwyr ifanc (a ddiffiniwyd fel rhai rhwng 16 a 24 oed) ac oedolion (18 oed a throsodd).

- **A fydd y darn o waith yn cael effaith ar grŵp penodol o blant, os felly, disgrifiwch y grŵp dan sylw?**

Bydd y gwaith hwn yn cael effaith ar blant sydd angen gofal a chymorth, ac mae hyn yn cynnwys y gofalwyr ifanc hynny sydd angen cymorth ac sydd o dan 18 oed.

Er mwyn penderfynu a yw plentyn yn gymwys i gael gofal a chymorth, mae'n rhaid i awdurdod lleol gynnal asesiad o angen sy'n cwmpasu cyfres o bum elfen; sef:

- canlyniadau llesiant personol;
- rhwystrau i gyflawni canlyniadau llesiant personol;
- amgylchiadau person;
- cryfderau a galluoedd person;
- risgiau i gyflawni canlyniadau llesiant personol.

ISBN: 978-1-4734-4358-7

Mae'n rhaid i'r asesiad hwn o angen nodi'r canlyniadau llesiant personol y mae'r plentyn am eu cyflawni, i'r graddau y mae hyn yn briodol ar ôl ystyried oedran y plentyn a'i allu i ddeall yn glir ganlyniad yr asesiad a'r hyn a fydd yn digwydd nesaf.

O dan Adran 6 o'r Ddeddf, mae'n rhaid i awdurdod lleol ystyried pwysigrwydd hyrwyddo magwraeth y plentyn gan deulu'r plentyn, i'r graddau y mae hynny yn gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn. Pan fo plentyn o dan 16 oed, mae'n rhaid i awdurdod lleol gadarnhau ac ystyried barn, dymuniadau a theimladau'r personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, i'r graddau y mae hynny-

(i) yn gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn, ac
(ii) yn ymarferol resymol.

Bydd plant am gyflawni canlyniadau llesiant sy'n bersonol iddynt ac efallai y bydd angen gofal a chymorth arnynt i'w helpu i sicrhau'r rhain. Os bydd gan blentyn anghenion gofal a chymorth y gellir eu diwallu os bydd yr awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chymorth, a dim ond drwy hynny y gellir eu diwallu, yna byddant yn gymwys i gael gofal a chymorth.

Yna bydd awdurdodau lleol yn rhoi cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth i ofalwyr ifanc i'r plant hyn. Mae Adran 7 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi sylw dyladwy i Ran 1 o CCUHP mewn perthynas â'r plant hyn.

Mae'r naill ddyletswydd a'r llall yn hollbwysig a byddant yn sicrhau bod hawliau plant wrth wraidd unrhyw benderfyniadau a wneir ynglŷn ag anghenion gofal a chymorth plant neu ofalwyr ifanc.

## Cam 2. Dadansoddi'r effaith

- **Beth yw'r effeithiau cadarnhaol i blant, pobl ifanc neu eu teuluoedd?**

Bydd y fframwaith canlyniadau cenedlaethol a'r codau ymarfer yn amlinellu'n glir hawliau, rolau a chyfrifoldebau pobl a'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cymdeithasol er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau gorau o ran llesiant. Bydd y dull gweithredu hwn yn sicrhau'r effeithiau cadarnhaol canlynol i blant neu eu teuluoedd:

- bydd plant yn cael mynediad at gyngor, gwybodaeth a chymorth clir a hygyrch ynglŷn â gwasanaethau gofal a chymorth a sut i fynd ati i reoli eu llesiant. Bydd hyn yn rhoi cyfle i blant wneud penderfyniadau hyddysg ynglŷn ag unrhyw agwedd ar eu gofal a'u cymorth neu eu canlyniadau llesiant. Mae hyn yn ymwneud ag erthygl 13 o CCUHP;
- mae'n rhaid i awdurdodau lleol gael sgyrsiau â phlant a'u teuluoedd er mwyn pennu'r hyn sy'n bwysig iddynt. Bydd y sgwrs hon yn rhoi mwy o lais a rheolaeth i blant dros eu bywydau a'r gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Mae hyn yn ymwneud ag erthygl 12 o CCUHP;
- bydd plant yn deall eu cyfrifoldebau a chânt eu hannog a'u grymuso i wneud dewisiadau cadarnhaol er mwyn rheoli eu llesiant eu hunain ac elwa ar ofal a chymorth rhagweithiol ac ataliol. Mae hyn yn ymwneud ag erthygl 5 o CCUHP;
- mae'n rhaid i awdurdodau lleol gymryd camau priodol i ddiogelu plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso neu unrhyw fath arall o niwed a'u helpu i adnabod cydberthnasau anniogel a'u diogelu eu hunain rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae hyn yn ymwneud ag erthygl 19 o CCUHP;
- caiff plant eu cefnogi i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt a'u hannog i gymryd rhan yn eu cymuned. Mae hyn yn ymwneud ag erthygl 31 o CCUHP;
- caiff y gofal a roddir ei ail-bwyso er mwyn canolbwyntio ar helpu plant i aros gyda'u teuluoedd. Mae hyn yn ymwneud ag erthyglau 9 a 18 o CCUHP;

ISBN: 978-1-4734-4358-7

- cynnydd yn ansawdd, cysondeb a pherfformiad gwasanaethau gofal a chymorth gan roi buddiannau plant yn gyntaf gyda'r nod cyffredinol o wella canlyniadau llesiant plant. Mae hyn yn ymwneud ag erthygl 3 o CCUHP.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai tlodi plant yw'r prif rwystr i wireddu a chynnal hawliau plant yng Nghymru. Mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn ymrwymiad â blaenoriaeth i CCUHP, ac mae'n ei gwneud yn glir bod cyfrifoldebau ar bobl adran o ran gwireddu hawliau plant. Mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn cysylltu'n gryf â'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol a'r nod o wella canlyniadau llesiant plant. Mae gwaith wedi dechrau ar gydweithredu â thîm y Strategaeth Tlodi Plant er mwyn deall sut y bydd y fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Strategaeth Tlodi Plant hon a chyflawni canlyniadau a dangosyddion cyffredin lle y bo'n briodol.

- **Beth yw'r effeithiau negyddol i blant, pobl ifanc neu eu teuluoedd?**
- **Lle mae effeithiau negyddol? pa gamau unioni y gall fod eu hangen i liniaru unrhyw effaith negyddol?**

- Bydd cyfrifoldebau plentyn am gyflawni ei ganlyniadau llesiant yn aml yn dibynnu ar ei rwydwaith teuluol; mae'n rhaid i hyn gael ei ystyried gan awdurdodau lleol wrth gael y sgwrs â phlant a'u teuluoedd. Bydd hyn yn ceisio osgoi pennu canlyniadau llesiant na ellir eu cyflawni a allai gael effaith negyddol ar blentyn;
- Mabwysiadwyd CCUHP yn ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn 2004; mae Llywodraeth Cymru wedi crynhoi hawliau plant drwy saith nod craidd sy'n sail dros benderfyniadau ynglŷn â blaenoriaethau ac amcanion yn genedlaethol. Dylent hefyd fod yn sail dros benderfyniadau ynglŷn â strategaeth a darpariaeth gwasanaethau yn lleol. Mae'r nodau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd y sectorau gwahanol, gan gynnwys iechyd, addysg a gwasanaethau cymorth i'r teulu yn cydweithio er mwyn i blant gael budd a chyflawni eu canlyniadau llesiant. Yn unol â'r ymrwymiad hwn, mae'r cod ymarfer ynglŷn â rhan 2 yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda phob un o'i swyddogaethau o fewn yr awdurdod lleol hwnnw a phartneriaid perthnasol eraill a nodwyd fel rhai hanfodol i helpu pobl i sicrhau eu llesiant; bydd hyn yn ceisio osgoi tor-perthynas mewn unrhyw un o'r partneriaethau hyn a all gael effaith negyddol ar blentyn;
- Er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn lais a rheolaeth dros benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, weithiau bydd angen i blant gael eiriolwr annibynnol i siarad ar eu rhan. Bydd angen ystyried trefniadau mewn achosion lle nad oes gan blant eiriolwr; heb eiriolwr, efallai y bydd effaith negyddol ar blant am na allant sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed na'u bod yn cael rheolaeth dros benderfyniadau a wneir amdanynt.

- **Sut y byddwch yn gwybod a yw eich darn o waith yn llwyddiant?**
- **A ydych wedi datblygu fframwaith canlyniadau i fesur effaith?**
- **A ydych wedi ystyried canlyniadau yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor?**

Caiff llesiant ei fesur yn genedlaethol drwy'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol. Mae'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn cynnwys y datganiad llesiant a dangosyddion canlyniadau cenedlaethol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno adroddiadau ar y dangosyddion canlyniadau cenedlaethol hyn a byddant yn cynnig mwy o dryloywder ynghylch a yw gwasanaethau gofal a chymorth yn gwella canlyniadau llesiant plant yng Nghymru.

Cafodd y datganiad llesiant ei lunio i ddechrau gyda phlant sy'n derbyn gofal. Datblygwyd y gwaith hwn drwy ddefnyddio dull gweithredu yn seiliedig ar hawliau, gan adeiladu ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Cafodd y canlyniadau eu cyd-gynhyrchu â phobl eu hunain, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr; roedd gan y grwpiau penodol hyn lai o lais yn draddodiadol, ac roedd yn bwysig canfod yr hyn a oedd yn bwysig iddynt. Gwnaeth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru helpu i gael lleisiau uniongyrchol pobl fel rhan o'i ymgyrch 'I matter, we matter' a gyflwynodd leisiau grŵp amrywiol o bobl – dros 4,000 o gysylltiadau. Aethpwyd ati i dargedu pobl sydd ag ystod eang o nodweddion

ISBN: 978-1-4734-4358-7

gwarchodedig er mwyn darganfod yr hyn y mae llesiant yn ei olygu iddynt.

Drwy Voices from Care hwyluswyd cyfres o weithdai gyda phobl ifanc sy'n derbyn neu sydd wedi derbyn gofal er mwyn nodi pa ganlyniadau llesiant a oedd yn bwysig iddynt. Roedd canlyniadau'r gwaith hwn yn hollbwysig o ran cadarnhau'r fethodoleg a nodi canlyniadau llesiant sy'n gymwys i bawb. Aeth Cynghrair Gofalwyr Cymru a Plant yng Nghymru ati i hwyluso gweithdai gyda gofalwyr hŷn ac iau er mwyn nodi canlyniadau i ofalwyr a sicrhau bod yr hyn sy'n bwysig i ofalwyr yn cael ei gofnodi. Nododd y gwaith hwn nifer o ddangosyddion penodol o ran canlyniadau llesiant i ofalwyr sydd wedi cael eu hymgorffori yn y datganiad llesiant.

Er mwyn sicrhau bod anghenion a chanlyniadau'r grwpiau penodol hyn o bobl yn cael eu cofnodi, aethpwyd ati hefyd i gysoni fframweithiau Llywodraeth Cymru, y caiff pob un ei ddatblygu drwy ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau er mwyn nodi'r canlyniadau allweddol a phethau sy'n bwysig iddynt. Roedd hyn yn cynnwys Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar, a defnyddiwyd tystiolaeth o'u cysylltiadau eu hunain i sicrhau bod y datganiad llesiant yn cynnwys yr holl ganlyniadau llesiant a disgwyliadau pwysig i blant yng Nghymru.

Wrth gyd-gynhyrchu cynllun gofal a chymorth (neu gynllun cymorth i ofalwyr ifanc) sy'n nodi canlyniadau llesiant personol y mae plentyn am eu cyflawni, mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda phlant i nodi cerrig milltir realistig, arsylwadwy a chyflawnadwy i'w cyrraedd er mwyn gwireddu pob canlyniad a monitro cynnydd tuag at gyflawni'r rhain.

Bydd dadansoddi'r cynnydd y mae plant yn ei wneud tuag at gyflawni eu canlyniadau llesiant personol yn helpu awdurdodau lleol i fesur newid ac effaith eu gweithgarwch.

Yn sail i'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol bydd fframwaith mesur perfformiad. Mae'r cod ymarfer ynglŷn â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn nodi'r fframwaith mesur perfformiad i awdurdodau lleol, a fydd yn cynnwys safonau ansawdd a mesurau perfformiad mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Caiff y safonau ansawdd a'r mesurau perfformiad hyn eu defnyddio i fesur y cyfraniad y mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn ei wneud i gyflawni llesiant i'r holl bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth; bydd hyn yn cynnwys llesiant plant ac yn rhoi cyfle i'r sector graffu ar ei berfformiad er mwyn dysgu a gwella.

- **A oes angen ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a/neu randdeiliaid er mwyn ceisio eu barn drwy ymgynghori neu ddulliau cyfranogol?**

Oes - cynhaliwyd ymgynghoriadau cyhoeddus drwy gydol y gwaith hwn:

1. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y Bil rhwng mis Mawrth 2012 a mis Mehefin 2012. Craffwyd ar y Bil drafft gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd. Arweiniodd hyn at welliant a oedd yn ychwanegu 'addasrwydd llety' i'r diffiniad o lesiant fel y'i diffiniwyd yn y Bil a basiwyd gan y Cynulliad ar 18 Mawrth 2014.

2. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus arall ar y dull o ddatblygu'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol, sy'n cynnwys y datganiad llesiant rhwng mis Tachwedd 2012 a mis Chwefror 2013, a chafodd ymatebion gan amrywiaeth eang o sefydliadau plant megis Plant yng Nghymru a Chomisiynydd Plant Cymru.

3. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ddiweddar rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Chwefror 2015, a oedd yn cynnwys y cod ymarfer ynglŷn â Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) o'r Ddeddf. Mae'r cod yn nodi'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo llesiant, a dyletswyddau cyffredinol eraill wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys y ddyletswydd i awdurdodau lleol roi sylw dyladwy i CCUHP wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phlant.

ISBN: 978-1-4734-4358-7

Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ynghylch a fydd y cynigion yn y cod yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar grwpiau a nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys oedran). Cyflwynwyd ymatebion gan sefydliadau plant ac elusennau plant, gan gynnwys y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant, a Gweithredu dros Blant.

4. Sefydlwyd Grŵp Technegol ar gyfer y Fframwaith Mesur Perfformiad Awdurdodau Lleol i gynghori Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cyfres o safonau a mesurau perfformiad sydd i'w cynnwys yn y fframwaith mesur perfformiad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Roedd y grŵp technegol yn cynnwys cynrychiolwyr gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a'r sector gwirfoddol, y trydydd sector a'r sector annibynnol; dangosir rhestr lawn o aelodau'r grŵp technegol yn Atodiad B ar ddiwedd y ddogfen hon.

   Caiff y safonau a'r mesurau perfformiad eu nodi yn y cod ymarfer ynglŷn â mesurau perfformiad gwasanaethau cymdeithasol, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol o 12 wythnos ar 2 Chwefror 2015. Bydd yr ymgynghoriad hwn hefyd yn ceisio barn ynghylch a fydd y cynigion yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys oedran).

5. Yn ogystal â'r ymgynghoriadau cyhoeddus, mae'r datganiad llesiant wedi cael ei ddatblygu ymhellach gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n rhan o Banel Dinasyddion Gwasanaethau Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru. Mae Panel Cenedlaethol y Dinasyddion yn gweithio fel rhan o'r trefniadau arweinyddiaeth cydweithredol, gan sicrhau llais defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn y broses o drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

6. Sefydlwyd grŵp Llywio ac Ymgysylltu Strategol fel rhan o'r strwythur ymgysylltu ehangach er mwyn llywio polisi gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys aelodau o sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector statudol, y sector gwirfoddol a'r sector preifat; Mae hefyd yn cynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig er mwyn sicrhau y caiff llais pobl sydd â nodweddion gwarchodedig ei glywed. Gwnaeth y Grŵp Llywio ac Ymgysylltu Strategol lywio'r fframwaith canlyniadau a'r datganiad llesiant cryn dipyn. Rhoddodd aelodau gyngor proffesiynol ar ddatblygu canlyniadau llesiant er mwyn sicrhau bod diffiniadau yn cynrychioli llesiant yr holl bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

- **A oes angen paratoi fersiynau o gynigion/ymgynghoriadau i blant?**

Mae fersiwn i blant o'r datganiad llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth wedi cael ei baratoi a'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru (http://wales.gov.uk/docs/dhss/publications/140624wellbeingchilden.pdf).

Roedd yr ymgynghoriad ynghylch Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys crynodeb o'r ddogfen ymgynghori i blant. O ystyried natur dechnegol y cod ymarfer ynglŷn â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol, mae fersiwn hawdd ei ddarllen ar gael.

Wrth fesur a gyflawnir y safonau ansawdd, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol holi pobl ynglŷn â'u profiad o wasanaethau cymdeithasol ac a yw hyn wedi cyfrannu at wella eu llesiant. Gofynnir y cwestiynau hyn i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth drwy holiadur: caiff y cwestiynau hyn eu paratoi ar ffurf sy'n briodol i blant ymateb, a chaiff fersiwn o'r holiadur i blant ei greu.

## Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Yn dibynnu ar effaith eich darn o waith, lluniwch farn gytbwys i asesu:

ISBN: 978-1-4734-4358-7

- **Pa erthyglau CCUHP sydd <u>fwyaf</u> perthnasol i'r darn o waith? Ystyriwch yr erthyglau y mae'ch darn o waith yn effeithio arnynt.** http://uncrcletsgetitright.co.uk/images/PDF/UNCRCRights.pdf
- **Pa agweddau ar fywydau plant y bydd y cynnig yn effeithio arnynt?**
- **A yw'r darn o waith yn helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau o fewn erthyglau CCUHP?**

Bydd canlyniadau'r rhan fwyaf o blant yn cael eu cyflawni gan eu teulu, ffrindiau, a gwasanaethau yn y gymuned, megis iechyd ac addysg. Fodd bynnag, weithiau bydd angen i blentyn neu deulu gael cymorth ychwanegol gan wasanaethau cymdeithasol er mwyn eu helpu i sicrhau eu llesiant.

Mae'r cod ymarfer ynglŷn â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn nodi'r safonau ansawdd y mae'n rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â hwy er mwyn hyrwyddo llesiant plant sydd angen gofal a chymorth. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda phlant i hyrwyddo llesiant a diogelu plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae'r safonau ansawdd hyn, a gweddill y safonau ansawdd, yn ymwneud â'r diffiniad o lesiant yn y Ddeddf, sy'n cwmpasu pob agwedd ar fywyd plentyn.
Golyga hyn fod y rhan fwyaf, os nad pob un, o'r canlyniadau o fewn erthyglau CCUHP yn berthnasol i'r rhaglen waith hon; mae cam 2 yn amlinellu rhai o'r effeithiau cadarnhaol ac yn cyfeirio at yr erthygl berthnasol o dan CCUHP y mae'n ei hyrwyddo. Ymhlith yr erthyglau allweddol eraill y mae'r gwaith hwn yn eu hyrwyddo mae:

<u>Erthygl 5</u>
Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfarwyddo ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio eu hawliau'n briodol. Nid yw helpu plant i ddeall eu hawliau yn golygu eu gwthio i wneud dewisiadau ac iddynt oblygiadau y maent yn rhy ifanc i'w trafod.

<u>Erthygl 9</u>
Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni onid yw hyn er eu lles nhw'u hunain, er enghraifft os yw rhiant yn cam-drin neu'n esgeuluso plentyn. Mae gan blant y mae eu rhieni wedi gwahanu hawl i gadw mewn cyswllt â'r ddau riant, oni fyddai hyn yn niweidio'r plentyn.

<u>Erthygl 12</u>
Mae gan blant yr hawl i roi eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd, pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.

<u>Erthygl 13</u>
Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn eu niweidio hwy na phobl eraill.

<u>Erthygl 23</u>
Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.

<u>Erthygl 25</u>
Dylai sefyllfa plant y mae eu hawdurdod lleol yn hytrach na'u rhieni yn gofalu amdanynt gael ei hadolygu'n rheolaidd

<u>Erthygl 31</u>
Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

- **Sut rydych yn gwella'r ffordd y mae plant a phobl ifanc yn arfer eu hawliau?**
- **Beth yw'r prif faterion y dylai'r CRIA ganolbwyntio arnynt?**

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi

ISBN: 978-1-4734-4358-7

sylw dyladwy i CCUHP wrth ddatblygu pob darn o ddeddfwriaeth a pholisi. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf roi sylw dyladwy i CCUHP.

Deddf Plant 1989 a CCUHP a fu'n sail i ddatblygu'r diffiniad o lesiant yn y Ddeddf.

Llesiant a'r canlyniadau y mae pobl am eu cyflawni sydd wrth wraidd y ddeddfwriaeth; mae'r diffiniad o lesiant yn y Ddeddf, a'r datganiad llesiant, yn cydnabod bod sicrhau hawliau yn allweddol i sicrhau y gall plant siarad drostynt hwy eu hunain neu gael rhywun a all wneud hynny ar eu rhan fel eu bod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd.

Mae'r datganiad llesiant yn cydnabod y dylai pobl gael y wybodaeth a'r cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt er mwyn byw bywydau bodlon. Gall hyn gynnwys helpu pobl i wybod pa wasanaethau gofal a chymorth y gallant eu cael neu helpu pobl i gael gafael ar wasanaethau ataliol a fydd yn eu hatal rhag gofyn am help gwasanaethau gofal a chymorth yn y dyfodol. Mae'n rhaid iddo gael ei roi ar yr adeg gywir ac yn y ffordd y mae pobl am ei gael ac yn ei ddeall. Mae'r gofyniad hwn hefyd yn y Ddeddf; mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r holl bobl sydd angen gofal a chymorth o bosibl a bod cymorth yn cael ei roi i bobl sy'n cael gofal a chymorth.

Bydd y Ddeddf hefyd, ac eithrio'r darpariaethau ynglŷn â chludadwyedd, yn rhoi hawliau cyfatebol i ofalwyr ifanc, gan roi statws cyfreithiol tebyg iddynt ag sydd gan y bobl y maent yn gofalu amdanynt.

## Cam 4. Cynghori'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Wrth roi cyngor a gwneud argymhellion i'r Gweinidog, ystyriwch:

- Y ffyrdd y mae'r darn o waith yn helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o fewn erthyglau CCUHP.
- A nodwyd unrhyw wrthdaro ag erthyglau CCUHP yn y cynnig?
- Ystyriwch yr effaith ehangach; a yw'r cynnig yn effeithio ar unrhyw feysydd polisi eraill?
- O ran unrhyw effeithiau negyddol a achosir gan y cynnig; a all Gweinidogion roi tystiolaeth eu bod wedi neilltuo cymaint o adnoddau â phosibl?
- Pa opsiynau a chyngor y dylid eu rhoi i Weinidogion ynglŷn â'r cynnig?
- O ran eich cyngor ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r darn o waith ai peidio, a oes unrhyw gyngor ychwanegol y dylech ei roi i'r Gweinidog?
- A yw'n briodol cynghori'r Gweinidog i ailystyried penderfyniad yn y dyfodol, yn enwedig o gofio'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd a pha adnoddau a all fod ar gael yn y dyfodol?
- A ydych wedi rhoi cyngor i Weinidogion ar LF/SF ac wedi cadarnhau paragraff **26**?
- A yw'r cyngor wedi'i ategu gan esboniad o'r materion allweddol?

Ceisiwyd cytundeb y Gweinidog drwy gydol y rhaglen waith hon. Caiff y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei hysbysu am gynnwys y CRIA hwn a bydd yn cael copi.

## Cam 5. Cofnodi a chyfleu'r canlyniad

**Fersiwn terfynol i'w gadw ar iShare**

Dylid cadw tystiolaeth sy'n ategu'r canlynol:

- Sut y cydymffurfiwyd â'r ddyletswydd **(Camau 1-3 uchod)**
- Y dadansoddiad a gynhaliwyd **(Camau 1-3 uchod)**
- Yr opsiynau a ddatblygwyd ac a ystyriwyd **(Camau 1-3 uchod)**

ISBN: 978-1-4734-4358-7

- Sut y cafodd y canfyddiadau / canlyniadau eu cyfleu? **(Cam 4 uchod)**
- Yn 'adrodd yr hanes' ynglŷn â sut y cynhaliwyd yr asesiad a'r canlyniadau **(Cam 4 uchod)**

## Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen

Wrth adolygu'r darn o waith, ystyriwch unrhyw waith monitro, gwerthuso neu gasglu data a wnaed:

- A yw'ch darn o waith wedi cael yr effaith a fwriadwyd fel y'i nodwyd yng Ngham 2.
- A ydych wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid i drafod sut mae'r polisi neu'r arfer yn gweithio.
- Os nad ydych, a oes angen unrhyw newidiadau?
- Nodwch lle y gellir gwneud gwelliannau i leihau unrhyw effaith negyddol.
- Nodwch unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo hawliau plant, o gofio unrhyw adnoddau ychwanegol sydd ar gael ar hyn o bryd.

Caiff y CRIA ei ddiweddaru ym mis Medi 2015 ar ôl ystyried yr adborth a roddwyd mewn perthynas â phlant ar yr ymgynghoriadau cyhoeddus ar y cod ymarfer mewn perthynas â Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) a'r cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

**Cyllidebau**

| | |
|---|---|
| **O ganlyniad i gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, a oes unrhyw effaith ar gyllidebau?**<br>Mae'n bwysig, pan gaiff unrhyw newidiadau eu gwneud i gynlluniau gwariant, gan gynnwys pan fydd dyraniadau ychwanegol wedi'u gwneud, fod hyn wedi'i asesu a bod tystiolaeth wedi'i darparu i'w ategu fel rhan o broses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. | **Nac oes** |
| **Rhowch unrhyw fanylion:** | |

**Monitro ac Adolygu**

| | |
|---|---|
| **A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?** | **Oes** |
| **Os yw'n gymwys: pennwch y dyddiad adolygu** | **Medi / 2015** |

**Gweler y dudalen nesaf am Restr Gryno o erthyglau CCUHP**

ISBN: 978-1-4734-4358-7

# THE UNITED NATIONS CONVENTION ON THE RIGHTS OF THE CHILD

www.uncrcletsgetitright.co.uk

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

The United Nations Convention on the Rights of the Child is an international agreement that protects the human rights of the children under the age of 18. On 16 December 1991, the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland formally agreed to make sure that every child in the UK has all the rights as listed in the convention. The Welsh Government has shown its commitment to the convention by adopting it as the basis for policy making for children in Wales.

Altogether there are 54 articles in the convention. Articles 43-54 are about how adults and governments should work together to make sure all children are entitled to their rights. The information contained here is about articles 1-42 which set out how children should be treated.

## Article 1
Everyone under 18 years of age has all the rights in this Convention.

## Article 2
The Convention applies to everyone whatever their race, religion, abilities, whatever they think or say and whatever type of family they come from.

## Article 3
All organisations concerned with children should work towards what is best for each child.

## Article 4
Governments should make these rights available to children.

## Article 5
Governments should respect the rights and responsibilities of families to direct and guide their children so that, as they grow, they learn to use their rights properly.

## Article 6
All children have the right of life. Governments should ensure that children survive and develop healthily.

## Article 7
All children have the right to a legally registered name, the right to a nationality and the right to know and, as far as possible, to be cared for by their parents.

## Article 8
Governments should respect children's right to a name, a nationality and family ties.

## Article 9
Children should not be separated from their parents unless it is for their own good, for example if a parent is mistreating or neglecting a child. Children whose parents have separated have the right to stay in contact with both parents, unless this might hurt the child.

## Article 10
Families who live in different countries should be allowed to move between those countries so that parents and children can stay in contact or get back together as a family.

## Article 11
Governments should take steps to stop children being taken out of their own country illegally.

## Article 12
Children have the right to say what they think should happen, when adults are making decisions that affect them, and to have their opinions taken into account.

## Article 13
Children have the right to get and to share information as long as the information is not damaging to them or to others.

## Article 14
Children have the right to think and believe what they want and to practise their religion, as long as they are not stopping other people from enjoying their rights. Parents should guide their children on these matters.

## Article 15
Children have the right to meet together and to join groups and organisations, as long as this does not stop other people from enjoying their rights.

## Article 16
Children have a right to privacy. The law should protect them from attacks against their way of life, their good name, their families and their homes.

## Article 17
Children have the right to reliable information from the mass media. Television, radio and newspapers should provide information that children can understand, and should not promote materials that could harm children.

## Article 18
Both parents share responsibility for bringing up their children, and should always consider what is best for each child. Governments should help parents by providing services to support them, especially if both parents work.

## Article 19
Governments should ensure that children are properly cared for, and protect them from violence, abuse and neglect by their parents or anyone else who looks after them.

## Article 20
Children who cannot be looked after by their own family must be looked after properly, by people who respect their religion, culture and language.

## Article 21
When children are adopted the first concern must be what is best for them. The same rules should apply whether the children are adopted in the country where they were born or taken to live in another country.

## Article 22
Children who come into a country as refugees should have the same rights as children born in that country.

## Article 23
Children who have any kind of disability should have special care and support so that they can lead full and independent lives.

## Article 24
Children have the right to good quality health care and to clean water, nutritious food and a clean environment so that they will stay healthy. Rich countries should help poorer countries achieve this.

## Article 25
Children who are looked after by their local authority rather than their parents should have their situation reviewed regularly.

## Article 26
The Government should provide extra money for the children of families in need.

## Article 27
Children have a right to a standard of living that is good enough to meet their physical and mental needs. The Government should help families who cannot afford to provide this.

## Article 28
Children have a right to an education. Discipline in schools should respect children's human dignity. Primary education should be free. Wealthy countries should help poorer countries achieve this.

## Article 29
Education should develop each child's personality and talents to the full. It should encourage children to respect their parents, and their own and other cultures.

## Article 30
Children have a right to learn and use the language and customs of their families, whether these are shared by the majority of people in the country or not.

## Article 31
All children have a right to relax and play, and to join in a wide range of activities.

## Article 32
The Government should protect children from work that is dangerous or might harm their healthor their education.

## Article 33
The Government should provide ways of protecting children from dangerous drugs.

## Article 34
The Government should protect children from sexual abuse.

## Article 35
The Government should make sure that children are not abducted or sold.

## Article 36
Children should be protected from any activities that could harm their development.

## Article 37
Children who break the law should not be treated cruelly. They should not be put in prison with adults and should be able to keep in contact with their families.

## Article 38
Governments should not allow children under 15 to join the army. Children in war zones should receive special protection.

## Article 39
Children who have been neglected or abused should receive special help to restore their self respect.

## Article 40
Children who are accused of breaking the law should receive legal help. Prison sentences for children should only be used for the most serious offences.

## Article 41
If the laws of a particular country protect children better than the articles of the Convention, then those laws should stay.

## Article 42
The Government should make the Convention known to all parents and children.

For further information on the United Nations Convention on the Rights of the Child please visit: The Welsh Government's UNCRC Website:
www.uncrcletsgetitright.co.uk/

Clic - The National Information and Advice Service for Young People
www.cliconline.co.uk/news/

ISBN: 978-1-4734-4358-7

## Atodiad A: Rhanddeiliaid sy'n rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth

| Sector | Sefydliad | Cynnwys |
|---|---|---|
| Llywodraeth Ganolog | Llywodraeth Cymru | Grŵp llywio ac ymgysylltu, Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid | Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| Comisiynydd | Comisiynydd Plant Cymru | Grŵp llywio ac ymgysylltu, Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| | Comisiynydd Pobl Hŷn | Grŵp llywio ac ymgysylltu, Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| Arolygu a/neu Reoleiddio | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | Grŵp llywio ac ymgysylltu, Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| | Cyngor Gofal Cymru | Grŵp llywio ac ymgysylltu, Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| | Estyn | Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| Llywodraeth Leol | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | Grŵp llywio ac ymgysylltu, Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| | Cyngor Ceredigion a Chyngor Sir Powys | Grŵp llywio ac ymgysylltu |
| | Merthyr Tudful | Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| | Bro Morgannwg | Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| | CLlLC | Grŵp llywio ac ymgysylltu, Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| Sector preifat | Fforwm Gofal Cymru | Grŵp llywio ac ymgysylltu, Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| | Prospects for Young People Ltd | Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| Ymchwil / Academia | Prifysgol Caerdydd | Grŵp llywio ac ymgysylltu, Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| | SCIE | Grŵp llywio ac ymgysylltu |
| Defnyddwyr Gwasanaethau | Plant a phobl ifanc | Gweithdai â ffocws |
| | Panel Dinasyddion | Gweithdai â ffocws |
| | Voices from Care | Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| Y Trydydd sector | Gweithredu dros Blant | Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| | Barnardo’s Cymru | Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| | Both Parents Matter Cymru | Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| | Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain (Cymru) | Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| | Plant yng Nghymru | Grŵp llywio ac ymgysylltu, Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| | Rhwydwaith Maethu | Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |

ISBN: 978-1-4734-4358-7

| | | |
|---|---|---|
| | NSPCC | Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| | Achub y Plant | Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal |
| | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru | Grŵp llywio ac ymgysylltu |
| | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | Grŵp llywio ac ymgysylltu |

## Atodiad B: Aelodaeth o Grŵp Technegol Fframwaith Mesur Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Adams, Constance | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Al-Nuaimi, Adam | Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi |
| Andrews, Nick | Cydweithredu Academaidd Cymru Gyfan ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Abertawe |
| Barker, Kevin | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Boothroyd, Julie | Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Sir Fynwy |
| Brown, Nigel | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Coles, Emma | Llywodraeth Cymru, Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Cooper, Jason | Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a Chymunedau |
| Davies, Adrian | Llywodraeth Cymru, Pennaeth Sicrhau Canlyniadau Gwell |
| Davies, Stephen | Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru |
| Davis, Lee | Llywodraeth Cymru, Strategaeth a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Elliot, Steve | Prospects for Young People Ltd |
| Gatehouse, Mathew | Cyngor Sir Fynwy |
| Griffiths, Suzanne | Pennaeth Gwasanaethau Plant, Merthyr Tudful |
| Humphrey, Chris | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Hutchinson, Rob | Hwylusydd annibynnol |
| Irshad, Amira | Llywodraeth Cymru, Strategaeth a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Jenkins, Gareth | Pennaeth Gwasanaethau Plant, Caerffili |
| Jones, Robin | Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi |
| Law, Lesley | Llywodraeth Cymru, Darparu Iechyd a Chyllid |
| Minty, Melanie | Fforwm Gofal Cymru |
| Palmer, Richard | Uned Ddata Cymru |
| Pickthall, Simon | Vanguard Wales |
| Rea, Carol | Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Abertawe |
| Thomas, Cathryn | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

| | |
|---|---|
| Thomas, Lee | Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi |
| Warren, Emily | Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Williams, Catriona | Plant yng Nghymru |
| Williams, Sioned | Cyngor Gofal Cymru |
| Wilson, Rick | Cynghrair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion |

ISBN: 978-1-4734-4358-7